Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol

Strengthening Social Partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Treial AI Llywodraeth Cymru Model ar gyfer Cydweithio ac Arloesi.

**Rhwng Medi 2023 a Rhagfyr 2024, lansiodd Cyfarwyddiaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg Llywodraeth Cymru dreial arloesol o Microsoft 365 Copilot, gan nodi cam beiddgar mewn arloesedd yn y sector cyhoeddus.**

Yr hyn a oedd yn gwneud y cynllun hwn yn arbennig oedd ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol drwy gydweithredu, tryloywder a chynhwysiant yn seiliedig ar ymgysylltu cynnar a gweithredol gydag undebau llafur.

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr undebau llafur gan roi mynediad Copilot iddynt cyn y treial. Cawsant hefyd eu cynnwys yn y sianel Copilot Teams pwrpasol, a oedd yn ddull amser real o weld adborth gan ddefnyddwyr, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth hyfforddi a diweddariadau technegol. Roedd y trefniant hwn yn caniatáu iddynt fonitro'r defnydd o Copilot o fewn y sefydliad a mynd i'r afael â phryderon posibl yn fuan.

Cafodd cynrychiolwyr undebau llafur fynediad cynnar at ddata adborth arolwg, a oedd yn eu galluogi i gymryd rhan yn y gwaith o ddehongli'r canlyniadau a phennu camau dilynol. Ymgynghorwyd â hwy hefyd wrth ddatblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb drwy ymgysylltu â defnyddwyr ac ymgorffori eu hadborth yn y dadansoddiad terfynol.

Roedd y Rhaglen Mynediad Cynnar yn cynnwys 300 o drwyddedau Copilot, a chynrychiolwyr undebau llafur oedd ymhlith y garfan gyntaf o ddefnyddwyr. Yn hollbwysig, roedd trwyddedau hefyd wedi'u cadw ar gyfer defnyddwyr niwrowahanol a staff sydd angen addasiadau yn y gweithle, gan sicrhau mynediad cyfartal o'r cychwyn cyntaf. Rhwng Medi a Rhagfyr 2024, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chyfranogiad drwy ymuno â threial Copilot traws-lywodraethol mwyaf y DU, gyda bron 1,500 o staff yn cymryd rhan. Bu'r undebau llafur yn cymryd rhan weithredol trwy gydol y cyfnod prawf estynedig, ac roeddent wedi chwarae rhan allweddol wrth benderfynu ar y strategaeth ar gyfer dyrannu trwyddedau, gan sicrhau tryloywder, cynhwysiant, a chydymffurfiaeth ag egwyddorion y Bartneriaeth Gymdeithasol.

Roedd y sesiynau adborth a'r arolygon misol yn creu cylch parhaus o ddealltwriaeth, gyda'r canfyddiadau'n cael eu rhannu ag undebau llafur ac uwch-arweinwyr. Cyfarfu'r Prif Swyddog Digidol a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr â chynrychiolwyr undeb i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y cynlluniau. Roedd y dull gweithredu hwn yn annog ymddiriedaeth, yn cyflymu prosesau gwneud penderfyniadau, ac yn cyd-fynd yn ddi-dor â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Roedd y canlyniadau'n drawiadol, gyda'r defnyddwyr yn rhoi gwybod am fanteision amlwg o ran cynhyrchiant a boddhad swydd. Roedd yr undebau llafur yn canmol y broses dryloyw, gynhwysol fel model ar gyfer prosiectau digidol i'r dyfodol.

Dangosodd y treial hwn fod arloesedd yn llwyddo gyda phartneriaeth gymdeithasol gadarn. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys undebau llafur o'r cychwyn a chyfathrebu'n agored â hwy drwy gydol y broses, gan osod esiampl ar gyfer mabwysiadu technoleg mewn ffordd gyfrifol sy'n canolbwyntio ar bobl.



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53051
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Astudiaeth achos

Ionawr 2026